# Adroddiad Mai 2014 ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2013

## Hyfforddiant Iaith Gymraeg Staff Cyngor Gwynedd
## Ionawr – Rhagfyr 2013

| | **Ionawr/ Gorffennaf 2013** | **Awst/ Rhagfyr 2013** | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Dysgwyr – pob safon | **50** | **47** | |
| **Adrannau** | | **Adrannau** | |
| Addysg | **4** | Addysg | **2** |
| Cefnffyrdd | **4** | Cefnffyrdd | **6** |
| Cyllid | **1** | Cyllid | **1** |
| Darparu a Hamdden | **16** | Gwas C/Tai/DH | **27** |
| Economi a Chymuned | **0** | Econ a Chymuned | **0** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | **10** | Rheoleiddio | **4** |
| Rheoleiddio | **4** | Strategol a Gwella | **1** |
| Strategol a Gwella | **2** | Ymgynghoriaeth | **6** |
| Ymgynghoriaeth | **9** | | |

**Darparwyr y Cyrsiau**:

- Tiwtor Mewnol: 2 ddosbarth yng Nghaernarfon drwy'r flwyddyn
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Aberystwyth
- Grŵp Llandrillo-Menai (Coleg Meirion Dwyfor/Coleg Menai)
- Nant Gwrtheyrn

| **Cyrsiau Dwys Allanol (h.y. 3-5 diwrnod)**: | |
|---|---|
| • Nant Gwrtheyrn | **7** |
| • Ysgol Ionawr Dolgellau (Prif. Aberystwyth) | **3** |
| • Ysgol Galan Bangor a'r Wyddgrug(Prif. Bangor) | **3** |
| • Ysgol Basg Dolgellau (PA) | **1** |
| • Ysgol Haf Bangor/Pwllheli/Yr Wyddgrug (PB) | **2** |
| • Ysgol Haf Dolgellau | **2** |
| **Cwrs Cymraeg yn y Gweithle – 3 diwrnod – pob lefel iaith**<br>***Ar y cyd gyda Chynghorau Sir Môn, Conwy, Fflint, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Cyngor Cefn Gwlad***<br>**10 – 12 Medi 2013** | **10** |

| | |
|---|---|
| **<u>Gloywi Iaith</u>**<br>**<u>Cyrsiau hyd at 20 awr dros gyfnod o wythnosau</u>**<br>**<u>Cyfanswm</u>:**<br>Coleg Menai Bangor/Coleg Llandrillo Dolgellau<br><br>**<u>Gweithdai Mewnol hanner diwrnod</u>**:<br>Treiglo<br>Amserau'r Ferf<br>Gwallau Cyffredin | <br><br>**12**<br><br><br><br>**11** |

**<u>Monitro Cynnydd 2013</u>**

Anfonwyd ffurflenni monitro cynnydd at y tiwtoriaid a'r rheolwyr llinell yng Ngorffennaf a Rhagfyr er mwyn nodi cynnydd y staff yn y Gymraeg ac unrhyw sylwadau perthnasol eraill yn ymwneud â'r dysgu. Roedd lle i dicio blychau :

- *Dim cynnydd mesuradwy*
- *Ychydig*
- *Llawer*

gyferbyn â *Gwrando a Siarad, Darllen ac Ysgrifennu*. Os na chafwyd sylwadau gan y rheolwr yna cymerwyd sylwadau'r tiwtor fel tystiolaeth.

Dyma'r canrannau - o'r dystiolaeth ddaeth i law:

| | Llawer | Ychydig | Dim cynnydd mesuradwy |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2013 | 48% | 38% | 14% |
| Rhagfyr 2013 | 46% | 46% | 8% |

**<u>Sylwadau</u>:**

**<u>Trosiant staff</u>**
Mae niferoedd staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith yn newid yn gyson fel mae staff yn mynd a dod am wahanol resymau.
Dyma'r sefyllfa yn ystod 2013:
**Nifer wedi eu tynnu oddi ar y rhestr** - 14
<u>Rhesymau</u> :
Cyrraedd y nod - 2
Gadael y Cyngor - 6
Methu â chael dosbarth addas - 4
Rhesymau eraill /Dros dro/cais Rheolwr - 2

**<u>Lefelau Iaith CBAC – Rhagfyr 2013</u>**
**<u>Canran staff oedd yn mynychu gwersi ar y gwahanol risiau iaith</u>**

**Mynediad**: Cwrs Mynediad 1 a 2, neu hanner cyntaf Cwrs Wlpan
**Sylfaen**: Cwrs Sylfaen neu ail hanner Cwrs Wlpan

**Canolradd**: Cwrs Canolradd neu'r Cwrs Pellach - cyfateb i safon TGAU
**Uwch**: Cwrs Uwch (1) Cwrs Meistroli (2)

| Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch |
|---|---|---|---|
| **27%** | **23%** | **20%** | **30%** |

## Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2013/14

Gwobrwywyd dwy eleni – y ddwy yn dod o blith y 'Dechreuwyr':

- Aeth y wobr gyntaf i **Caroline Jackson** o Ganolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog.
- Aeth yr ail wobr i **Tracey Linton**, Cymhorthydd Gofal yng nghartref preswyl Frondeg, Caernarfon.

### Y Fframwaith Iaith newydd – diweddariad

Does dim symudiad wedi bod i fabwysiadu'r fframwaith iaith newydd yn swyddogol hyd yma.

### Dangosyddion Lefelau Iaith CBAC

Mae'r offeryn yma yn ffordd dda o asesu lefelau iaith staff - boed ddysgwyr neu siaradwyr Cymraeg hyderus.
Mae'r Dangosyddion Iaith wedi eu seilio ar gamau cydnabyddedig dysgu Cymraeg i Oedolion - sef:

- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch
- Hyfedredd

Ddechrau 2013 cymerodd Cyngor Gwynedd ran mewn peilot i weld sut oedd hyn yn gweithio. Mae'n galluogi unigolion i sefyll prawf ar eu cyfrifiaduron mewn Darllen, Ysgrifennu, Gwrando a Siarad. Mae 47 wedi cymryd rhan ynddo hyd yma.

Mae mwy nag un rheolwr wedi gwneud ymholiadau yn ddiweddar er mwyn eu defnyddio i asesu lefel iaith eu staff, gan gynnwys staff rhugl er mwyn asesu lefel iaith ysgrifenedig.